

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

Cofnodion Cyfarfod 12fed o Ebrill 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.		
<b>YN BRESENNOL</b>		
Daniel Williams	Nerys John	
Lena Ashley	George Smith	
Iestyn Harris	Gruff John	
Aled Emyr	Yasmin Khan	
Sarah Riley		
Wynne Barton - Swyddog Ariannol		
<b>1.0</b>	<b>SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD</b>	
1.1	Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Ebrill y Cyngor gan y Cadeirydd Daniel Williams. <b>Ymddiheuriadau:</b> Mair Bebb Jones, Casi Jones, Peter Simpson	
<b>2.0</b>	<b>ADRODDIAD GAN Y CYNGHORYDD SIR</b>	
	Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig, gweler atodiad 1.	
<b>3.0</b>	<b>DATGAN DIDDORDEB</b>	
	Aled Emyr eitem 10.2	
<b>4.0</b>	<b>COFNODION</b>	
4.1	Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod misol 8 Fawrth 2016, roedd angen cyfeirio yn eitem 13.2 mai meinciau Gwynedd oedd y meinciau a gyfeirir atynt. <b>Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod fel rhai cywir a'u harwyddo.</b>	
<b>5.0</b>	<b>MATERION YN CODI</b>	
5.1	<b>Toiledau</b> – dim gwybodaeth wedi ei dderbyn.	
5.2	<b>Cysgodfan Bws</b> – cafwyd wybodaeth bod y gwaith i gysgodfan ger yr eglwys byth wedi ei wneud ond bod y panel wedi ei archebu gan y contractwr. Rhoddwyd wybodaeth hefyd bod dim angen hawl cynllunio i osod cysgodfan yn Aberpwl. Penderfynwyd bod y Cyngor yn cael pris am godi cysgodfan fel yr un sydd yno ar hyn o bryd. Dywedodd y Swyddog Ariannol nad yw'r gost of godi y gysgodfan wedi ei gynnwys yn y gyllidebau am y flwyddyn.	<b>CLERC</b>
5.3	<b>Hysbysfyrdau</b> – dim gwybodaeth wedi ei dderbyn ynglyn a chaniatad ond byddai modd i Gareth Roberts anfon llun o'r mapiau o fewn y ffram at y perchennog tir er mwyn iddo weld sut y byddai yn edrych ar y safle. Penderfynwyd anfon at Gareth er mwyn iddo archebu y mapiau beth bynnag.	
5.4	<b>TESCO</b> – rhoddwyd adroddiad gan y Cyngorydd Nerys John bod y Cyngor wedi ennill £8,000 o bunnoedd ar gyfer prosiect y Cae Chwarae. Yn gyntaf roedd angen penderfynu os oedd y cyngor am dderbyn yr grant. Cynnigwyd bod y Cyngor yn derbyn y	<b>NJ</b>

## CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	grant gan y Cynghorydd Iestyn Harris ac fe eilwyd y cynnig gan Aled Emyr. Roedd y Cyngor yn gytun a'r cynnig. Bellach roedd angen penderfynu ynglyn a pha gylchdro i'w archebu unai yr un gan Playdale neu G L Jones; wedi drafodaeth penderfynwyd a gylchdro Playdale.	
<b>6.0</b>	<b>ADRODDIAD IS-BWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD</b>	
6.1	Cafwyd wybodaeth bod gwaith ar y drws tân wedi ei gwblhau.	
6.2	Bydd Kimberley Gulf yn ymweld a'r Neuadd i roi eglurhad am yr adroddiad pnawn yr 21ain o Ebrill. Bydd y Cynghorydd Daniel Williams a'r Cynghorydd Iestyn Harris yn bresennol, bydd croeso i unrhyw un arall fod yn bresennol hefyd.	<b>DW</b>
<b>7.0</b>	<b>CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL</b>	
7.1	Cadarnhawyd gwariant Mis Mawrth.	
7.2	Derbyniwyd adroddiad ariannol heb ei archwyllo.	
7.3	Dywedodd y Swyddog Ariannol ei fod heb dderbyn ffurfleni oddi wrth yr Archwilwyr Allannol ond bod dyddiad olaf pa bryd maent eu hangen yn hysbys. Y Cyfrifon i gael eu hadolygu gan y Cynghorydd Sarah Riley a'r Cynghorydd Iestyn Harris	
<b>8.0</b>	<b>GOHEBIAETH</b>	
8.1	Cais Rhyddid gwybodaeth – derbyniwyd gais am wybodaeth ynglyn a faint o arian bydd y Cyngor yn rhoi at ddathlu penblwydd y Frenhines. Nid oedd trafodaeth wedi bod ar hyn felly trafodwyd y mater a phenderfynwyd na fyddai y Cyngor yn gwneud unrhyw wariant ar ddathlu'r achlysur.	
8.2	Gardd Cymunedol Brynffynon – roedd y Cyngor wedi derbyn ymholiad gan rai o'r pentrefwyr ynglyn a beth fydd yn digwydd i'r ardd – Penderfynwyd anfon ar Gyngor Gwynedd.	<b>CLERC</b>
8.3	Newdiadau arfaethedig i bennod 6 Polisi Cynllunio Cymru – gofynwyd i'r Cynghorydd George Smith os byddai yn fodlon edrych ar y ddogfen a rhoi sylwadau arno yn y cyfarfod nesaf.	<b>GS</b>
<b>9.0</b>	<b>ADRODDIAD Y CLOC</b>	
9.1	Dywedodd y Clerc bod y Cyngor wedi derbyn cynnig Grant oddi wrth y War Memorials Trust. Roedd contract wedi ei anfon gyda'r telerau. Trafodwyd y telerau a phenderfynwyd derbyn y grant. Arwyddwyd y telerau.	

**CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI**

<b>10.0</b>	<b>CEISIADAU CYNLLUNIO</b>	
10.1	C16/0214/18/LL - cais o dan Adran 73 or Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i ddiwygio amodau 1, 2 a 5 o ganiatad cynllunio C01A/0392/18/LL ar gyfer man newidiadau i broffil gorffenedig y safle tirlenwi anadweithiol presennol er mwyn hwyluso adfer a chreu tirwedd lle mae posib sefydlu coetir – Nant y Garth Landfill Site, Coed Nant y Garth, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4QG – <b>GWRTHWYNEBU</b> AR Y SAIL BOD ANGEN SICRHAU BOD DIM GWAITH YN CYMRYD LLE FEWN 10 MEDR O'R AFON; FELLY YN CYTUNO GYDA SYLWADAU SWYDDOG BIOAMRYWIAETH CYNGOR GWYNEDD.	
10.2	C14/1110/20/LL – codi 4 ty tri ystafell wely, un ohonynt i fod yn dy fforddiadwy – tir ger Oaklands, Penybryn, Y Felinheli, Gwynedd, LL56 4YQ – <b>DIM GWRTHWYNEBIAD</b>	
<b>11.0</b>	<b>ADRODDIAD IS BWYLLGOR Y FYNWENT</b>	
	Anfonodd y Cynghorydd Peter Simpson adroddiad drwy law y Cadeirydd ynglyn a'r fynwent yn datgan bod Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau bod camddefnyddo finiau sbwriel ac gwastraff gwyrdd pan maent arwahan. Roedd yn awgrymu cadw'r bin presennol ond ail leoli'r ar slab newydd.  Dywedodd hefyd ei fod yn edrych ar "bunker" coed mewn dau ran ar gyfer y pridd a chompostio. Bydd yn prisio'r gwaith yn fuan.	
<b>12.0</b>	<b>ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH</b>	
	Dywedodd y Cynghorydd Daniel Williams bod llechi sydd ar y don wedi symud a byddai ef a'r Cynghorydd Peter John yn hoffi gwneud prawf ar y safle i edrych os oes modd i stopio i hyn ddigwydd. Gofynnodd i'r Aelodau os byddai'r Cyngor yn barod i rhoi hawl i ddefnyddio fyny at £100 i brynu llechi i edrych os byddai'r prawf yn llwyddo. Roedd y Cyngor yn gytun i ganiatau hyn.	
<b>13.0</b>	<b>ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANAU A MEINCIAU</b>	
13.1	Dim i adrodd	
<b>14.0</b>	<b>CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL</b>	
14.1	Dim i adrodd	
	Daeth y cyfarfod i ben am oddeutu 09:04 yn yr hwyr.	
Llofnod:		Dyddiad:

**Atodiad 1****Adroddiad Cynghorydd Sian Gwenllian - Ebrill 2016**

STEPIAU CEI: Mae'r llwybr cyhoeddus rhwng Tai Terfyn a'r Doc wedi ail-agor ar ôl cyfnod hir. Diolch i Gyngor Gwynedd a Cemlyn Williams (Llanddeiniolen) am y gwaith o ddiogelu'r wal ger y stepiau. Diolch i bawb am eu hamynedd! Wnes i swnian a swnian am hyn - braf iawn gweld y gwaith wedi ei gwblhau erbyn y Pasg. Rwyf mewn cysylltiad efo'r Royal Mail ynglŷn ag ail-agor y bocs llythyrau. LLWYBR YR ARFORDIR: Dydd Llun bum mewn cyfarfod o Bwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd gan siarad am y Llwybr Arfordir hir-ddisgwyliedig yn Felin. Roedd y cynghorwyr yn unfrydol eu cefnogaeth (14-0) i symud mlaen i greu gorchymyn adran 26 er mwyn cofrestru darn 8 metr o dir yng nghefn tai ffrynt y marina fel llwybr cyhoeddus. Dyma'r darn olaf o'r jig-so sydd ei angen cyn gellir agor Llwybr yr Arfordir. Gosodais y mapiau ar yr Hysbysfwrdd Cymunedol yn Felin Sgwrsio. Newyddion ardderchog. Gallwch weld y drafodaeth yma (Eitem yn cychwyn 00:09:46).

[http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/webcast\\_interactive/213944](http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/webcast_interactive/213944) Dyma'r adroddiad aeth i'r Pwyllgor <https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=135&MId=203>

SAFLE FERODO: Mae pryder mawr am ddiogelwch ar y safle a chefais gyfarfod efo pedwar o swyddogion o Gyngor Gwynedd yn ddiweddar i leisio'r farn fod angen dwyn pwysau ar y perchennog i wneud mwy i ddiogelu'r safle. Addawyd y byddai'r swyddogion yn ceisio cael gwell mesurau diogelwch ar waith. Rhaid cofio ei bod hi'n drosedd i fynd ar y safle ac ei bod yn beryglus yno.

GWAITH YN DILYN LLIFOGYDD: Gwnaed gwaith o dan y ffordd ger y gyffordd a Gwylan Uchaf yn mhen uchaf Lon Llwyn ble bu llifogydd ar ôl y Nadolig. Mae Llwybr Afon Heulyn yn parhau ar gau gan fod angen ail-godi'r wal. Cliriwyd y cerrig o'r afon.

Y DOC: Braf gweld ardal y Doc yn gwella a diolch i'r perchennog am wneud gwaith sylweddol i atgyweirio'r wal ger y ffordd. Mae nifer o fusnesau wedi lleoli yn y Doc erbyn hyn - a'r diweddaraf i sefydlu yno ydy cwmni Dafydd Hardy. Ewch lawr yno am dro - mae'n werth gweld yr holl ddatblygiadau. Bellach mae dros 60 o fusnesau bach yn Y Felinheli - cyflogwr pwysig yn y gymuned. CYFLWR WYNEB Y FFORDD - LON LLWYN A TAI GWELFOR: Mae'r rhain yn parhau i fod ar restr aros o ffyrdd sydd angen eu hail-wynebu gan Gyngor Gwynedd. Gobeithio y byddan nhw yn dod i'r brig cyn hir. Dyw'r toriadau i gyllidebau cynghorau sir ddim yn helpu gyda'r angen i flaenoriaethu gofal ac addysg.

ETHOLIAD MAI 5: Byddaf yn treulio'r wythnosau nesaf yn ymgyrchu er mwyn ceisio ennill sedd Arfon yn y Cynulliad Cenedlaethol. Byddaf yn parhau gyda fy ngwaith fel Cynghorydd Sir yn mis Ebrill ond ni fyddaf yn cynnal cymorthfeydd yn Felin Sgwrsio. Os byddaf yn cael fy ethol, fe fydd modd i bobol Y Felinheli ethol cynghorydd sir newydd maes o law. Rwyf ar gael ar 07775 642202 neu e-bostiwrch [siangwenllian@yahoo.com](mailto:siangwenllian@yahoo.com)

Cofnodion Cyfarfod 26ain o Ebrill 2016 a gynhaliwyd yng Nghapel Bethania, Y Felinheli am 7 yn yr hwyr.

**YN BRESENNOL**

Daniel Williams	Nerys John
Lena Ashley	George Smith
Iestyn Harris	Gruff John
Sarah Riley	Mair Bebb Jones
Casi Jones	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	

**1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

1.1	<p>Croesawyd yr aelodau i gyfarfod arbennig y Cyngor gan y Cadeirydd Daniel Williams y Cyngor.</p> <p>Pwrpas y Cyfarfod oedd trafod sut oedd Y Cyngor yn mynd i ariannu :</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. costau ar Y Cloc a</li> <li>2. prosiect y Cae Chwarae.</li> </ol> <p><b>Ymddiheuriadau:</b> Yasmin Khan, Peter Simpson, Aled Emyr</p>
2.0	<p>Cloc - Eglurwyd mewn cyfarfod swyddogol o'r Cyngor bod CADW yn fodlon ariannu rhan o gost gwaith trwsio'r cloc mewn ffurf grant a bod War Memorial Trust yn fodlon cyfrannu £1,760 tuag at y gwaith. Cafwyd cadarnhad bod CADW yn fodlon cyfrannu swm o £7000 tuag at y gost ond nad oedd cynnig swyddogol i law hyd yn hyn. Cost y gwaith yn cynnwys TAW a chostau'r pensaer yw £13,200 ond bod rhan o gostau'r Pensaer (£1200) eisoes wedi ei dalu. Yn ôl telerau CADW ni fydd yr arian yn cael ei dderbyn nes bydd y cynnig o'r grant wedi ei dderbyn yn swyddogol a bod y gwaith wedi ei orffen a'i arolygu ganddynt. Hefyd bydd rhaid disgwyl am ad-daliad TAW nes bydd y gwaith wedi ei orffen. Eglurwyd nad oedd swm ar gyfer y gwaith wedi ei gynnwys yng nghyllideb 2016/2017 ond bod dau swm o arian (£14,076 a £5,000)wedi ei glustnodi ar gyfer prosiectau eraill.</p> <p>PENDERFYNWYD Defnyddio swm o arian, sydd wedi ei glustnodi, ar gyfer gwaith trwsio'r cloc yn gychwynnol. Y swm yma yw ad-dalu pan fydd grantiau CADW a War Memorial Trust wedi'i derbyn yn ogystal ag ad-daliad TAW.</p> <p>Cynnig; Cyng. Iestyn Harris. Eilio Cyng. Nerys John Y Cyngor yn unfrydol o blaid.</p>

**CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI**

	<p>Prosiect y Cae Chwarae - Eglurwyd mewn cyfarfod swyddogol bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau grant o £8,000 oddi wrth Tesco i ariannu'r prosiect yma. Cyfanswm y gost fydd £10,193 yn cynnwys TAW. Bydd Tesco yn fodlon talu 75% o'r £8,000 ar ôl derbyn ffurflenni a) derbyn y cynnig a b) hawl perchnogion y tir, sef Cyngor Gwynedd. Bydd gweddill y taliad yn cael ei dderbyn unwaith bydd y prosiect bron a'i gwblhau. Bydd elfen TAW y prosiect yn cael ei ad-dalu maes o law a bydd gweithgareddau eraill yn cael eu cynnal i ariannu'r gweddill. Yn y cyfamser mae angen ariannu'r prosiect ac i'r perwyl yma nid oes gan Y Cyngor Cymuned arian wedi ei gynnwys yn y gyllid ar ei gyfer. Eglurwyd sefyllfa ariannol Y Cyngor gan nodi symiau sydd wedi eu clustnodi, sef £14,076 a £5,000.</p> <p>PENDERFYNWYD - defnyddio swm arian, sydd wedi ei glustnodi, ar gyfer prosiect y cae chwarae yn gychwynnol. Y swm a ddefnyddiwyd yw ad-dalu ar ôl derbyn yr holl grant oddi wrth Tesco, ad-daliad TAW ac unrhyw swm a gesglir trwy weithgareddau eraill.</p> <p>Cynnig: Cyng. Casi Wyn Jones. Eilio Cyng. Lena Ashley. Y Cyngor yn unfrydol o blaid.</p>	
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8 yn yr hwyr	
Llofnod:	Dyddiad:	